# *CYLCHGRAWN ADDYSG CYMRU*

# 22.1

## *Rhifyn Arbennig:*
## *Addysg Athrawon yng Nghymru – taith ddiwygio*


*Golygyddion*
Yr Athro David Egan (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)
Dr Russell Grigg (Y Weinyddiaeth Addysg,
Yr Emiraethau Arabaidd Unedig)

*Golygydd Gwadd*
Yr Athro John Furlong (Prifysgol Rhydychen)

*Bwrdd Golygyddol*
Yr Athro Gary Beauchamp (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)
Yr Athro David Egan (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)
Yr Athro John Furlong (Prifysgol Rhydychen)
Dr John Graystone (Colegau Cymru)
Dr Russell Grigg (Y Weinyddiaeth Addysg, Yr Emiraethau Arabaidd Unedig)
Yr Athro Mark Hadfield
Yr Athro Alma Harris (Prifysgol Abertawe)
Yr Athro Emeritws David Hopkins (Sefydliad Addysg UCL)
Dr Chris Howard
Dr Cath Jones (Prifysgol De Cymru)
Yr Athro Dylan Jones (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant)
Dr Michelle Jones (Prifysgol Abertawe)
Ann Keane (Cyn Brif Arolygydd Ei Mawrhydi
dros Addysg a Hyfforddiant, Estyn)
Dr Chris Llewelyn (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes,
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
Yr Athro David Reynolds
Yr Athro Claire Taylor (Prifysgol Glyndŵr Wrecsam)
Yr Athro Iram Siraj (Prifysgol Rhydychen)
Yr Athro Malcolm Thomas (Prifysgol Aberystwyth)
Dr Richard Thurston (Llywodraeth Cymru)
Dr Jean Ware (Prifysgol Bangor)
Yr Athro Dylan Wiliam (Sefydliad Addysg UCL)



*Mae Cylchgrawn Addysg Cymru yn gylchgrawn Mynediad Agored platinwm*
*https://doi.org/10.16922/wje.22.1*

00 Prelims WJE 22/1 Welsh).indd 2 08/07/2020 09:23

# *Cynnwys*


Cyfranwyr v

Golygyddol 1

Hanes Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru: Gwersi o'r Gorffennol? 7
DR RUSSELL GRIGG a'r ATHRO DAVID EGAN

Ailffurfio Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru: Adolygiad Personol o'r Llenyddiaeth 38
YR ATHRO JOHN FURLONG

Atebolrwydd a Diwygio Addysg Gychwynnol i Athrawon: Safbwynt o Dramor 61
YR ATHRO MARILYN COCHRAN- SMITH

Gwneud Pethau'n Wahanol: Ymateb i 'broblem bolisi' Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru 85
TREVOR MUTTON a DR KATHARINE BURN

Addysgu y Tu Hwnt i'r Ffiniau: Fframwaith Cysyniadol ac Athroniaeth Ddysgu'r Rhaglen Addysg Gychwynnol i Athrawon Arloesol yng Nghymru 114
YR ATHRO MALCOLM THOMAS, BARRY REES, GARETH EMYR EVANS, NICOLA THOMAS, CLIVE WILLIAMS, BERIAN LEWIS, DARYL PHILLIPS, ALLYSON HAND, SIÂN BOWEN, DR ANDREW DAVIES, PRYSOR MASON DAVIES, DR SUSAN CHAPMAN, MIKE REED a MANON LEWIS

Dylunio Rhaglen Integredig o Addysg Gychwynnol i Athrawon: Cynnydd, Ystyriaethau a Myfyrdodau 142
YR ATHRO ALMA HARRIS, DR MICHELLE JONES, DR HELEN LEWIS, DR NEIL LUCAS a JOANNA THOMAS

Newid y Lens: Mapio a Datblygu Ymagweddau Ymchwil mewn Rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) 165
DR JANE WATERS ac ELAINE S HARPLING

Canfyddiadau Rôl Newydd Hyrwyddwyr Ymchwil wrth Ddatblygu Partneriaeth AGA Newydd: Heriau a Chyfleoedd i Ysgolion a Phrifysgolion 185
DR CERI PUGH, EMMA THAYER, TOM BREEZE, YR ATHRO GARY BEAUCHAMP, DR JUDITH KNEEN, SHARNE WATKINS a BETHAN ROWLANDS

Datblygu Athrawon Yfory Gyda'n Gilydd: Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon CaBan 209
JEREMY GRIFFITHS, DR SALLY BAMBER, GRAHAM FRENCH, DR BETHAN HULSE, GWYN JONES, RHYS C. JONES, DR SUSAN JONES, GWAWR MAELOR WILLIAMS, HAZEL WORDSWORTH a'r ATHRO J. CARL HUGHES

Datblygu Hunaniaeth ac Ethos Proffesiynol trwy Ymchwil ac Ymarfer ym maes Addysg Gychwynnol i Athrawon: Dull Partneriaeth AGA Prifysgol De Cymru 233
DR CAROLINE DALY, JAMIE JAMES, CATHERINE JONES, LISA TAYLOR, KELLY W EGENER a CRAIG GEORGE

Diwygio AGA ym Mhrifysgol Glasgow: Egwyddorion, Sylfaen Ymchwil a Goblygiadau 257
DR BETH DICKSON

Diweddglo: Safbwynt yr Ysgolion 282
YR ATHRO JOHN FURLONG, YR ATHRO EITHNE HUGHES, RHONWEN MORRIS a JON MURPHY

Nodiadau i gyfranwyr 305

# *Cyfranwyr*

Mae **Dr Sally Bamber** yn aelod allweddol o dîm addysg athrawon Prifysgol Caer. Mae wedi gweithio'n helaeth ym maes ymchwil agos i ymarfer mewn ysgolion yng ngogledd Cymru.

Mae **Gary Beauchamp** yn Athro Addysg a Deon Cyswllt Ymchwil ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae ei waith ymchwil yn canolbwyntio ar ddefnyddio technolegau rhyngweithiol ym meysydd addysgu a dysgu, ond mae wedi cyhoeddi'n helaeth hefyd ar hyfforddiant cychwynnol athrawon yn y DU ac addysg cerddoriaeth.

Ar hyn o bryd, mae **Siân Bowen** yn gweithio fel Cynghorydd Her Addysg i Geredigion mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion 3–19 oed. Fel rhan o'i swydd flaenorol yn Ddirprwy Bennaeth, bu'n gweithio gyda SAU i gefnogi athrawon dan hyfforddiant.

Mae **Tom Breeze** yn Arweinydd Rhaglen ar gyfer TAR Uwchradd Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'n gyn athro cerddoriaeth mewn ysgol uwchradd, ac mae'n perfformio'n broffesiynol hefyd. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys addysgeg drawsgwricwlaidd yn y celfyddydau mynegiannol, a chredoau addysgegol athrawon cerddoriaeth Cyfnod Allweddol 3 wrth iddynt gyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Mae **Dr Katharine Burn** yn Athro Cyswllt Addysg yn Adran Addysg Prifysgol Rhydychen. Mae'n addysgu ac yn goruchwylio rhaglenni amrywiol, gan ganolbwyntio'n benodol ar addysg hanes. Mae'n gydgysylltydd Deoniaeth Addysg Rhydychen, partneriaeth cyfnewid gwybodaeth yr Adran gydag ysgolion lleol, ac mae ei gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol cychwynnol a pharhaus athrawon.

Mae **Dr Susan Chapman** yn ddarlithydd yn Adran Addysg Prifysgol Aberystwyth ac yn Diwtor Cyswllt yn rhaglen AGA Partneriaeth Aberystwyth. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys llythrennedd ac addysg mewn ysgolion gwledig.

**Marilyn Cochran-Smith** yw deiliad Cadair Cawthorne mewn Addysg Athrawon ar gyfer Ysgolion Trefol yn Ysgol Addysg Lynch, Coleg Boston.

Mae ei gwaith ymchwil wedi canolbwyntio ar bolisi ac ymarfer addysg athrawon ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, ym maes cyfiawnder cymdeithasol yn benodol. Mae'n gyn Lywydd Cymdeithas Ymchwil Addysgol America.

Mae **Dr Caroline Daly** yn Ddarllenydd mewn Addysg yn Sefydliad Addysg UCL, yn Athro Gwadd Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn Athro Cyswllt Addysg ym Mhrifysgol De Cymru. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys ymarfer cydweithredol ym maes Addysg Gychwynnol i Athrawon a dysgu proffesiynol athrawon.

Mae **Dr Andrew Davies** yn Uwch Ddarlithydd ac yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol yn Ysgol Addysg Prifysgol Aberystwyth. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol, recriwtio a chadw athrawon, a chymdeithaseg addysg a phlentyndod.

Mae **Prysor Mason Davies** yn Uwch Ddarlithydd ac yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol yn Ysgol Addysg Prifysgol Aberystwyth. Ar hyn o bryd mae'n dechrau ymchwil i Hawliau Plant yng Nghymru.

Mae **Dr Beth Dickson** yn uwch ddarlithydd yn Ysgol Addysg Prifysgol Glasgow. Yn rhinwedd ei swyddi fel deon cyswllt addysg gychwynnol i athrawon (AGA), dirprwy bennaeth ysgol a chyfarwyddwr dysgu ac addysgu, mae wedi arwain timau sydd wedi diwygio addysg athrawon.

**David Egan** yw Athro Emeritws Addysg, Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae'n gyn Gadeirydd UCET Cymru a Bwrdd y Gofrestrfa Hyfforddi Athrawon Graddedig.

Ar hyn o bryd, mae **Gareth Emyr Evans** yn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Bro Teifi, ysgol 3–19 yn Llandysul, Gorllewin Cymru. Mae'n aelod o Fwrdd Gweithredol a Rheoli Partneriaeth AGA Aberystwyth.

**Graham French** yw Arweinydd astudiaethau ôl-radd Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol Prifysgol Bangor. Mae ei brosiectau ymchwil presennol yn cynnwys datblygu a gwerthuso model addysgegol ar gyfer gweithgareddau anturus, effaith tlodi ar ddysgu mewn ysgolion trefol, defnyddio technoleg ddigidol i wella dysgu awyr agored, a datblygu addysgeg ac addysg oedolion ym maes chwaraeon antur.

Mae **John Furlong** yn Athro Emeritws Addysg ym Mhrifysgol Rhydychen. Mae'n cynghori Llywodraeth Cymru ar addysg gychwynnol i athrawon, ac ef oedd cadeirydd y grŵp a luniodd y Meini Prawf Achredu



00 Prelims WJE 22/1 Welsh).indd 6 08/07/2020 09:23

newydd i Gymru. Ef hefyd oedd cadeirydd cyntaf y Bwrdd Achredu Addysg Athrawon.

**Craig George** yw Pennaeth Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd (Oakdale). Mae ganddo dros ugain mlynedd o brofiad o addysgu yn y sector cynradd. Mae wedi ymrwymo i ddysgu proffesiynol ar gyfer bob rhanddeiliad, ac mae'r ysgol y mae'n bennaeth arni yn ysgol bartner arweiniol ym Mhartneriaeth AGA Prifysgol De Cymru. Mae ei waith ymchwil presennol yn canolbwyntio ar ddulliau arweinyddiaeth mewn sefydliadau gwahanol.

**Jeremy Griffiths** yw Cyfarwyddwr Gweithredol CaBan. Ar hyn o bryd, mae ar secondiad o'i swydd fel pennaeth ysgol gynradd fawr i fod yn arweinydd strategol partneriaeth CaBan. Mae ganddo 35 o flynyddoedd o brofiad yn gweithio mewn nifer o sectorau addysg, ac ar hyn o bryd mae'n Aelod Cyswllt o'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysg.

Mae **Dr Russell Grigg** yn Arolygydd Addysg yng Ngweinyddiaeth Addysg yr Emiraethau Arabaidd Unedig. Arferai fod yn Athro Cyswllt yng Nghanolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg.

Mae **Allyson Hand** yn Uwch Arweinydd yn Ysgol Uwchradd Crucywel ac mae'n gyfrifol am Gyflawniad Myfyrwyr ac AGA. Mae'n frwdfrydig iawn dros ei phwnc (Mathemateg) ac mae ganddi dros 25 o flynyddoedd o brofiad addysgu.

Mae **Alma Harris** yn Athro Addysg ac yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe. Mae ganddi enw rhyngwladol am ei gwaith ym meysydd polisi, arweinyddiaeth a gwella systemau addysg.

Mae **Eithne Hughes** yn Gyfarwyddwr Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru. Mae'n Athro Anrhydeddus Addysg ym Mhrifysgol Bangor ac yn gyn bennaeth Ysgol Bryn Elian. Derbyniodd OBE yn 2004 am ei gwasanaethau i Addysg Uwchradd yng Nghymru.

Mae **J. Carl Hughes** yn Athro Ymchwil Addysg ac yn Bennaeth Ysgol, yn Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol, Prifysgol Bangor. Mae'r Athro Hughes yn un o Gyfarwyddwyr y Sefydliad Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith, sy'n sefydliad amlddisgyblaethol, dwyieithog, cydweithredol ar gyfer creu ymchwil effaith seiliedig ar gyd-destun mewn ysgolion, gyda'r nod o effeithio'n gadarnhaol ymarfer addysgol, dysgu proffesiynol, deilliannau addysgol, a dysgu a llesiant ar gyfer plant yn ein hysgolion. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys



00 Prelims WJE 22/1 Welsh).indd 7 08/07/2020 09:23

ymyraethau addysgol seiliedig ar dystiolaeth, ymchwil effaith agos i ymarfer, hyfforddiant darllen, a datblygu systemau addysgol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Dr Bethan Hulse** yw Arweinydd Datblygu CaBan ar gyfer Prifysgol Caer. Cyn dod yn addysgwr athrawon, bu'n athro ieithoedd mewn ysgolion uwchradd yng ngogledd Cymru. Mae wedi cyhoeddi gwaith ymchwil ym meysydd datblygu athrawon fel ymchwilwyr ac addysgeg greadigol mewn Ieithoedd Tramor Modern.

**Jamie James** yw Pennaeth Ysgol Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Cymdeithasol Prifysgol De Cymru. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys astudio'r broses o greu cyfleoedd dysgu proffesiynol yn y gweithle ac hunaniaeth broffesiynol ym maes Addysg Gychwynnol i Athrawon.

**Catherine Jones** yw Pennaeth Datblygiad Ymchwil ac Ymarfer Addysgegol Adran Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Cymdeithasol Prifysgol De Cymru. Hefyd, mae'n Arweinydd Grŵp Ymchwil Cysylltiedig ag Addysg y Brifysgol. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys datblygu ymarfer proffesiynol, cydweithredu a dysgu cydweithredol a dysgu cyfunol.

Mae **Gwyn Jones** wedi cael profiadau addysg amrywiol yng Nghymru a Lloegr, ac mae wedi bod yn addysgu ym Mhrifysgol Bangor ers 9 mlynedd. Roedd yn aelod craidd o'r tîm Meistr mewn Ymarfer Addysg ac mae wedi arwain y gwaith o lunio'r cwricwlwm ar gyfer y cyrsiau CaBan newydd. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys ymholiadau athrawon ac addysg mathemateg.

Mae **Dr Michelle Jones** yn Bennaeth Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe ac yn Athro Cyswllt Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol. Yn y gorffennol mae wedi cyflawni swyddi proffesiynol ym Mhrifysgol Caerfaddon a Phrifysgol Malaya. Mae wedi gweithio gydag asiantaethau llywodraeth yn Lloegr, Rwsia, Singapore, Awstralia a Malaysia gan helpu i lunio a chyflwyno rhaglenni arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol yn y gwledydd hynny.

Mae **Rhys C. Jones** yn Gyfarwyddwr Cwrs TAR Uwchradd ac yn Arweinydd Mentoriaid CaBan. Mae ei ddiddordebau a gweithgareddau ymchwil yn canolbwyntio ar addysgeg Addysg Gorfforol (ymarfer seiliedig ar fodelau), datblygu cwricwlwm/athrawon/arweinyddiaeth trwy ymyraethau mentora a hyfforddi. Mae'n gwneud gwaith ymchwil ar gyfer ei



00 Prelims WJE 22/1 Welsh).indd 8 08/07/2020 09:23

ddoethuriaeth ym maes dysgu proffesiynol ac ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

Mae **Dr Susan Jones** yn arbenigo ym maes Addysg Athrawon, ac mewn addysg gwyddoniaeth yn benodol.

Mae **Dr Judith Kneen** yn Arweinydd Rhaglen TAR Saesneg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ar ôl arbenigo yn y maes addysg gychwynnol i athrawon dros y 12 mlynedd diwethaf. Hefyd, mae wedi gweithio fel athro Saesneg, pennaeth adran ac athro ymgynghorol. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys technoleg mewn addysgu Saesneg, addysgu llenyddiaeth a gwaith trawsgwricwlaidd.

Mae **Berian Lewis** yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Plascrug yn Aberystwyth. Mae ganddo brofiad o weithio mewn ysgolion gwahanol ac amrywiol yn ne Cymru a thramor. Yn gynharach yn ei yrfa, bu'n gweithio fel aelod o dîm gofal plant mewn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn gynghorydd i'r trydydd sector.

Mae **Dr Helen Lewis** yn athro ysgol gynradd profiadol, yn ymgynghorydd addysg ac yn addysgwr athrawon. Mae ei diddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar ddatblygu meddwl a metawybyddiaeth plant ifanc, ymholiadau athrawon ac ymarfer myfyriol, ac mae wedi ysgrifennu'n helaeth am y pynciau hyn. Mae'n Bennaeth Dros Dro Addysg Gychwynnol i Athrawon yn Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe.

Mae **Manon Lewis** yn Diwtor cyswllt TAR â chyfrifoldeb am Hanes a Daearyddiaeth yn Ysgol Addysg Prifysgol Aberystwyth. Mae wedi gweithio fel Pennaeth Cyfadran y Dyniaethau mewn ysgol uwchradd ac fel arholwr CBAC. Hefyd, mae wedi cyhoeddi deunyddiau addysgu i ddatblygu sgiliau meddwl.

**Dr Neil Lucas** yw'r Cyfarwyddwr Partneriaethau Ysgol yn Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe, ac mae ganddo gyfrifoldeb penodol am oruchwylio gweithrediadau Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe (SUSP). Mae wedi cyflawni nifer o rolau arweinyddiaeth addysg yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, ac yn ddiweddar roedd yn Gyfarwyddwr Coleg ac yn Bennaeth Coleg Rhyngwladol mewn Prifysgol. Hefyd, mae Neil yn gweithio fel adolygydd ar ran Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y DU.

Mae **Rhonwen Morris** wedi gweithio fel athro Celf a Dylunio ers 2001. Mae wedi cyflawni nifer o swyddi arweiniol gan gynnwys Pennaeth



00 Prelims WJE 22/1 Welsh).indd 9 08/07/2020 09:23

Adran, Uwch Arweinydd a Phennaeth Cynorthwyol ers 2016. Mae'n gyd-gadeirydd y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol ac yn aelod o Fwrdd Gweithredol yr Athrofa: Sefydliad Addysg, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Mae **Jon Murphy** newydd ymddeol o'i swydd fel pennaeth gweithredol ffederasiwn o ysgolion cynradd. Mae wedi derbyn swydd newydd fel Cydgysylltydd Hyb Ymchwil a Datblygu NACE ar gyfer Cymru. Fel Cymrawd Gwadd ym Mhrifysgol De Cymru ac aelod o'r Bwrdd Strategol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, mae wedi gweithio'n helaeth gyda'r ddau sefydliad ar yr agenda i ddiwygio Addysg Gychwynnol i Athrawon.

Mae **Trevor Mutton** yn Gyfarwyddwr Rhaglenni Proffesiynol yn Adran Addysg Prifysgol Rhydychen, lle mae'n addysgu ar raglenni amrywiol. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn canolbwyntio'n benodol ar bolisi ac ymarfer addysg athrawon, yn enwedig natur dechrau dysgu athrawon a phartneriaethau addysg athrawon.

Mae **Daryl Phillips** yn Bennaeth Cynorthwyol ac yn Fentor Arweiniol ar gyfer y bartneriaeth yn Ysgol Uwchradd y Trallwng. Mae'n diwtor Ffiseg ar y rhaglen TAR ac mae wedi ymchwilio i effaith Addysg Gychwynnol i Athrawon ar ysgolion.

Mae **Dr Ceri Pugh** yn Arweinydd Rhaglen ar gyfer llwybrau Gwyddoniaeth Uwchradd TAR ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae wedi gweithio ym maes AGA ers naw mlynedd yn dilyn gyrfa fel athro cemeg a gwyddoniaeth ac fel pennaeth adran. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys addysgeg gwyddoniaeth, gwaith grŵp cydweithredol a gwaith trawsgwricwlaidd.

**Mike Reed** yw Dirprwy Bennaeth Ysgol Uwchradd Aberteifi. Mae wedi gweithio mewn nifer o Adrannau Mathemateg ysgolion yn ardal y De a'r Gorllewin dros y 25 mlynedd diwethaf.

Mae **Barry Rees** wedi cyflawni llawer o swyddi lefel uwch yng Nghyngor Sir Ceredigion gan gynnwys Cyfarwyddwr Addysg. Ar hyn o bryd, mae'n Gyfarwyddwr Corfforaethol ac yn goruchwylio ysgolion, dysgu gydol oes a diwylliant, cyllid, gwasanaethau democrataidd, pobl a threfniadaeth, a gwasanaethau cyfreithiol. Mae'n gyd-gadeirydd Bwrdd Strategol ac Atebolrwydd Partneriaeth AGA AberTeach+.

Mae **Bethan Rowlands** yn un o ddarlithwyr y BA (Anrh) mewn Addysg Gynradd gyda SAC, TAR Cynradd a TAR Uwchradd yn Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Ar ôl gweithio am ugain mlynedd fel athro ysgol gynradd Cymraeg, mae'n gweithio ym maes addysg uwch ac ymchwil ar hyn o bryd.

**Elaine Sharpling** yw'r Cyfarwyddwr Addysg Gychwynnol i Athrawon yn yr Athrofa, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ac mae wedi arwain y gwaith o ddatblygu cyfres newydd o raglenni AGA trwy'r broses achredu. Ar ôl gadael y proffesiwn nyrsio, penderfynodd Elaine hyfforddi fel athro cynradd cyn symud i'r sector Addysg Uwch. Mae'n arwain rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon israddedig ac ôl-radd ac mae ganddi ddiddordeb ymchwil mewn datblygiad iaith, ieitheg a mesur ansawdd mewn rhaglenni AGA.

**Lisa Taylor** yw Cyfarwyddwr Addysg Gychwynnol Athrawon Prifysgol De Cymru. Mae wedi ymchwilio i ddulliau cydweithredol o ddysgu proffesiynol, gwella ysgolion a chymorth ysgol i ysgol, gan roi cyflwyniadau ar y themâu hyn yn genedlaethol. Mae gwaith ymchwil presennol Lisa yn ymwneud â datblygu a chyflwyno newid yn y system addysg yng Nghymru.

Mae **Emma Thayer** yn Arweinydd Rhaglen TAR Uwchradd Drama ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae wrthi'n astudio ar gyfer PhD, sy'n archwilio ymarfer cyffredin cyfarwyddwyr theatr ac athrawon drama. Mae ei diddordebau ymchwil eraill yn cynnwys drama ac addysgeg drawsgwricwlaidd, a swyddogaeth ymchwil ym maes AGA.

Mae **Joanna Thomas** yn athro cymwysedig a fu'n addysgu Ieithoedd Tramor Modern mewn ysgolion uwchradd cyn symud i'r sector Addysg Uwch ym 1999. Mae wedi cyflwyno rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl a Phrifysgol Warwick. Yn fwy diweddar, bu'n Bennaeth AGA yn Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe. Mae Joanna yn Uwch Gymrawd yr Academi Addysg Uwch ac yn arholwr allanol cwrs TAR Uwchradd Prifysgol Hope Lerpwl.

Mae **Malcolm Thomas** yn Athro ac yn Gyfarwyddwr Ysgol Addysg Prifysgol Aberystwyth, ac ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd USCET Cymru. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys ysgolion sy'n hybu iechyd, llythrennedd iechyd a llesiant, ac addysg maeth.

Roedd **Nicola Thomas** yn ddirprwy bennaeth Ysgol Uwchradd Crucywel. Ers ymgymryd â'r gwaith hwn, mae wedi'i phenodi'n un o Arolygwyr Ei Mawrhydi Estyn.



00 Prelims WJE 22/1 Welsh).indd 11 08/07/2020 09:23

Mae **Dr Jane Waters** yn Athro Cyswllt yn yr Athrofa, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ac mae'n arwain y gwaith o ddatblygu Ymchwil Addysg Gymhwysol yn y Brifysgol. Dechreuodd ei gyrfa fel athro ysgol gynradd cyn arwain rhaglenni israddedig ac ôl-radd mewn Astudiaethau Plentyndod Cynnar ac Addysg Gychwynnol i Athrawon yn y sector Addysg Uwch. Ei harbenigedd ymchwil yw addysg plentyndod cynnar, chwarae a dysgu yn yr awyr agored, a dysgu proffesiynol mewn addysg.

**Sharne Watkins** yw Dirprwy Bennaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Prifysgol Metropolitan Caerdydd, ac mae'n un o arweinwyr y gwaith o lunio a datblygu'r rhaglenni sydd newydd eu hachredu ym Mhartneriaeth Caerdydd. Dechreuodd Sharne ei gyrfa fel athro ysgol gynradd ac mae wedi gweithio yn y maes AGA ers 20 mlynedd, gan arbenigo mewn iaith a llythrennedd.

Mae **Kelly Wegener** yn Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol De Cymru. Ar hyn o bryd, ei phrif faes ymchwil yw defnyddio technoleg efelychu i wella sgiliau meddwl beirniadol myfyrwyr mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae wedi cyflwyno ei chanfyddiadau yn y maes hwn yng nghynadleddau BERA ac IPDA.

**Clive Williams** yw Pennaeth Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac mae'n aelod cyswllt o'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yng Nghymru. Mae'n gweithio fel Cynghorydd Her rhan-amser i Erw ac fel Arolygydd Cymheiriaid i Estyn. Mae'n Fentor Arweiniol ym mhartneriaeth ardal Aberystwyth.

**Gwawr Maelor Williams** yw arweinydd CaBan ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymreig mewn addysg athrawon. Mae wedi cyfrannu'n helaeth at y strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog.

**Hazel Wordsworth** yw Cyfarwyddwr Addysg Gychwynnol i Athrawon yn Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol Prifysgol Bangor. Mae ei phrif ddiddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar Blentyndod Cynnar, Dysgu a Datblygu, yn enwedig chwarae sy'n cael ei arwain gan blant, llais y plentyn a'i berchenogaeth o'i ddysgu unigol.



00 Prelims WJE 22/1 Welsh).indd 12 08/07/2020 09:23